Hyrwyddo Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd Yn Y Dosbarth

Rhys Hughes (1600814) – ECAD6012/C

Cefndir a phwrpas

Diffinia Barnes (2015, t.11) dysgu trawsgwricwlaidd fel pryd mae'r "sgiliau, gwybodaeth ac agweddau o nifer o wahanol ddisgyblaethau yn cael eu cymhwyso at brofiad, problem, cwestiwn, thema neu syniad unigol." Hynny yw, pryd mae sgiliau o wahanol adrannau o'r cwricwlwm yn cael eu hybu o fewn yr un gweithgaredd neu wers. Mae'r fath yma o ddysgu yn rhan allweddol o'r cwricwlwm a fydd yn cael ei weld yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf, gyda'r potensial iddo fod yn effeithiol mewn codi safonau cyffredinol y plant, a'u cynorthwyo i wneud cysylltiadau rhwng pynciau. Pwysleisia'r adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' ar bwysigrwydd dysgu trawsgwricwlaidd, gan hefyd nodi tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd a ddylai treiddio mewn gwersi heddiw. Awgrymwyd y dylai "llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd" i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc (Donaldson, 2015, t.40). Yn y poster yma felly, gweler arddangosiad o ddau fodel o ddysgu trawsgwricwlaidd, gan gynnig esiamplau o sut mae'n bosib hybu'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yma mewn gweithgareddau penodol. Enw'r ddau fodel yw'r dull amlddisgyblaethol, a'r dull pwnc unigol trosglwyddadwy, a daw'r ddau ohonynt o'r llyfr 'Cross-curricular Learning 3-14'. Bydd y gweithgareddau yn benodol wedi teilwra ar gyfer plant BL.4, a bydd ddisgrifiad o ba sgiliau cwricwlaidd a pha gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd caiff eu hyrwyddo.



Diagramau o'r ddau fodel
Barnes (2015)



Model 1 - Cyflwyniad

Enw'r model cyntaf felly yw'r dull aml-trosglwyddadwy. Dyma ble mae defnydd o "brofiad neu thema unigol i ddatblygu sgiliau uwch o ddealltwriaeth a pherfformiad mewn dau neu mwy o ddisgyblaethau" (**Barnes, 2015, t.70).** Hynny yw, ble mae dealltwriaeth y plant o fewn dau neu mwy o bynciau yn cael ei ehangu gan brofiad neu thema benodol. Mae manteision a chyfyngiadau i hyn:

- ✓ *Plant yn adeiladu ar eu dealltwriaeth sylfaenol, gan gael profiad gweledol ac ymarferol a fydd yn cynyddu eu dealltwriaeth*
- ✓ *Cyfle i'r plant cysylltu'r dysgu â phrofiad penodol - Wrth son am fathemateg, dyweda* ***Taylor a Harris (2014, t.31)*** *y "ddylai mathemateg cael ei dysgu a'i addysgu o fewn cyd-destun profiadau ystyrlon"*
- × *Profiad pwerus fel hyn yn gallu cymryd amser, a chost ariannol uwch, yn enwedig os yw'r profiad yn y tu allan i'r ysgol*

Serch hyn, nid oes rhaid i'r profiad yma yn benodol bod yn ymweliad; gallai fod yn weithgaredd yn y dosbarth y mae'r plant yn ei wneud gyda'i gilydd. Beth bynnag yw hi, yn sicr mae potensial i'r model yma bod yn effeithiol. Yn benodol wrth feddwl am y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, a sgiliau pynciol eraill, byddai'n bosib trwy'r model yma i gysylltu'r dysgu gyda'r profiad, gan weld yr hyn mae'r plant wedi ei ddysgu ar y profiad yn cyfoethogi'r datblygiad yn yr agweddau hynny. Gweler isod esiamplau o sut gellir gwneud hynny:

Model 1 – Esiampl ohoni ar waith

Yn yr achos yma, thema'r dosbarth yw 'Bywyd yr Ifaciwi'. I gychwyn, mi fydd y plant yn cael gwersi pynciol a fydd yn cynyddu eu dealltwriaeth sylfaenol o'r thema. Ar y mwyaf bydd y rhain yn wersi hanes ar y rhyfel ei hun a phwy oedd ifaciwis, ond gallai hefyd cynnwys gwersi daearyddiaeth ar wledydd y rhyfel, gwersi addysg grefyddol ar foeseg rhyfela, ac yn y blaen. Yna, ar ôl dysgu ac archwilio'r wybodaeth sylfaenol yma, mi fydd y plant yn cael ymweld ag amgueddfa 'Eden Camp' yn Swydd Efrog. Bydd cyfle i gael profiad llaw-cyntaf o fel byddai bywyd yr ifaciwi wedi bod, gan brofi elfennau o'r thema yn weledol ac yn ymarferol. Ar ôl y profiad dosbarth-cyfan, mi fydd y gwersi sy'n dilyn yn rhai sy'n seiliedig ar y thema a'r profiad, ond bydd yn hybu'r sgiliau o'r cwricwlwm cyfan, yn ogystal â'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ymhob wers. Dyma rhai esiamplau:

<u>1) Creu fideo mewn grwpiau yn cyfweld ag ifaciwi sy'n siarad am le mae'n byw a beth mae bywyd fel i fod yno</u>

Cwricwlwm Hanes *(2008) – "Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau"*

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *– Llythrennedd (2013) "Archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl", Cymhwysedd Digidol (2018) "Creu ac addasu cydrannau aml-gyfryngol mewn un iaith neu fwy gan ddefnyddio ystod o feddalwedd"*

<u>2) Creu model o gysgodfa 'cyrch awyr' allan o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu, yn seiliedig ar yr hyn maent wedi ei weld</u>

Cwricwlwm Celf a Dylunio *(2008) – "Dylunio a gwneud gwrthrychau ac arteffactau tri dimensiwn"*

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *– Rhifedd (2013) "Adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad", Llythrennedd (2013) "Cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan"*

<u>3) Creu poster yn cymharu beth fyddai'r ifaciwi yn bwyta mewn diwrnod, a beth mae plant y dosbarth yn ei fwyta</u>

Cwricwlwm Cymraeg *(2008) – "Esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol"*

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *– Rhifedd (2013) "Cyflwyno data drwy ddefnyddio: – rhestrau, siartiau cyfrif, tablau a diagramau", Cymhwysedd Digidol (2018) "Addasu a chyflwyno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol"*

Bydd angen sicrhau ymhob un o'r gweithgareddau yma, bod cysylltiad at y profiad fel bod y plant yn gallu cysylltu'r dysgu gyda'r ymweliad. Bydd hefyd angen cynllunio'n ofalus, gan osod digon o amser i'r plant cwblhau'r gwaith, a chynnig cyfleoedd iddynt weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau.

Model 2 - Cyflwyniad

Enw'r ail fodel yw'r dull pwnc unigol trosglwyddadwy. Dyma ble'r nod yw i "gwella dysgu mewn pwnc unigol trwy gymhwyso ei bersbectif yn bwrpasol at ystod o feysydd cwricwlwm eraill" (Barnes, 2015, t.68). Hynny yw mai'r plant yn dysgu agwedd penodol o un pwnc neu ddisgyblaeth (fel Cymraeg, Mathemateg neu ABaCh), ac yna yn ei gymhwyso at bynciau a disgyblaethau eraill. Fel arfer un o'r pynciau craidd yw'r pwnc unigol, er nid yw hyn yn angenrheidiol. Mae manteision a chyfyngiadau i hyn:

- ✓ *Rhoi'r cyfle nid yn unig i wella yn y pwnc unigol, ond hefyd mewn pynciau eraill ar yr un pryd*
- ✓ *Cysylltiadau yn cael ei wneud rhwng gwahanol feysydd - Dysgu llwyddiannus yn dod o "gallu'r athro i helpu'r plant i wneud cysylltiadau ar draws meysydd dysgu a phrofiad"* ***Kerry (2010, t.44)***
- × *Ffocws yn benodol ar y pwnc ac nid ar y math o brofiadau caiff y plant - Risg nad oes digon o bwyslais ar safon yr addysgu*

Serch hyn, gyda'r math cywir o gynllunio o brofiadau dysgu creadigol, mae potensial i'r model yma bod yn un effeithiol bydd yn gweld y plant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau ar yr un pryd. Wrth feddwl yn benodol am hybu'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, byddai'n bosib dewis un pwnc unigol, gan yna cymhwyso elfennau o'r pwnc yna at y tri chyfrifoldeb. Gweler isod esiamplau o hynny:

Model 2 – Esiampl ohoni ar waith

Yn yr achos yma, thema'r dosbarth yw 'mynyddoedd ac afonydd', a'r pwnc unigol trosglwyddadwy yw daearyddiaeth. Yn y gweithgareddau yma felly, bydd sgil daearyddiaeth yn cael ei ddewis ac yn cael ei chymhwyso at rhai o'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd o fewn yr un gweithgaredd. Y gobaith yw felly y bydd datblygiad yn cael ei weld yn y sgiliau i gyd. Gweler trwy hyn y ffordd mae un pwnc, sef daearyddiaeth, yn gallu cael ei gysylltu at feysydd ac agweddau gwahanol, yn yr achos yma'r tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. Dyma rhai esiamplau:

<u>1) Plant yn creu cyflwyniad PowerPoint mewn parau am un o fynyddoedd uchaf y byd ar ol gwneud ymchwil, gan yna eu cyflwyno i weddill y dosbarth, a chreu graff bar ar uchderau'r gwahanol fynyddoedd</u>

Cwricwlwm Daearyddiaeth (2008) *- "Adnabod a disgrifio nodweddion naturiol a dynol"*

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *– Rhifedd (2013) "Dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas", Cymhwysedd Digidol (2018) "Addasu a chyflwyno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol"*

<u>2) Plant yn dysgu am y glawiad yn yr ardal trwy gwblhau dyddiadur glaw, ble byddent yn mesur faint sydd wedi disgyn pob dydd yn eu gardd gartref, ac yna'n ysgrifennu crynodeb o faint o law sydd wedi disgyn gan ei gymharu gyda'r diwrnod blaenorol</u>

Cwricwlwm Daearyddiaeth (2008) *- "Mesur, casglu a chofnodi data trwy waith ymchwil ymarferol a gwaith maes a defnyddio ffynonellau eilaidd, e.e. defnyddio offer i fesur glaw"*

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *- Llythrennedd (2013) "Dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau", Rhifedd (2013) "Amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir"*

<u>3) Gan ddefnyddio map, graddfa a phapur tŷ bach; ail-greu llwybr yr afon mewn grwpiau, gyda'r pellteroedd a'r troadau yn y lle iawn</u>

Cwricwlwm Daearyddiaeth (2008) *- "Dilyn cyfarwyddiadau, amcangyfrif a chyfrifo pellteroedd"*

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *- Llythrennedd (2013) "Cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan", Rhifedd (2013) "Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd"*

Bydd angen sicrhau bod y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn cael eu cynnwys am reswm pendant, er mwyn cyfoethogi'r dysgu yn y pwnc unigol, yn hytrach na fod nhw yna am ddim rheswm.

Beth nesaf?

Gweler felly yn y ddwy esiampl yma, ffyrdd y mae'n bosib hybu'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd mewn gweithgareddau gwahanol. Wrth edrych ar y ddau fodel, mae'n amlwg bod gwneud hyn yn cynnig cyfleoedd i blant datblygu yn y tri agwedd yna, gan hefyd eu cysylltu â phynciau eraill, gan hybu sgiliau gwahanol o fewn yr un gweithgaredd. Wrth feddwl am addysg yn y dyfodol, yn bendant mae'n bosib gwneud defnydd o'r ddau fodel yma er mwyn hybu'r cyfrifoldebau yn gryf yn y dosbarth. Er hynny, mae'n amlwg bod angen i'r cynllunio fod yn ofalus ac yn drylwyr, gan sicrhau bod y cyfrifoldebau yn cyfoethogi'r dysgu yn y pynciau eraill, a'r gwrthwyneb. Fel esbonia Estyn (2018, t.94) wrth son am un ysgol benodol, mae'n bwysig sicrhau bod "gofynion trawsgwricwlaidd yn ystyrlon a pherthnasol." Pwysig yw sicrhau bod o leiaf un o'r cyfrifoldebau yn cael eu hybu o fewn pob gwers, gan fod eu hangenrheidrwydd ar gyfer dyfodol y plant yn amlwg.